# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 6ed Mehefin 2019 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Lumley (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Dai Evans, Helen Evans, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan ac Iwan Thomas.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies.
Denfer Morgan (Clerc).

**227 Ymddiheuriadau a Phersonol**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies, Alwen Thomas a Ray Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Nodwyd fod triniaeth y Cynghorydd Ray Williams yn parhau a chydymdeimlwyd a'r Cynghorydd Marc Davies yn ei golled diweddar.

**228 Datgelu Buddiannau**

Fe fu i'r Cynghorwyr Nigel Davies ac Iwan Thomas ddatgelu buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng Nghais Cynllunio A190318 y cyfeirir ato yng nghofnod 236 isod ac ni chymerwyd ran pellach ganddynt yn y drafodaeth a'r pleidleisio ar y mater.

**229 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2il Mai 2019, yn amodol ar gofnodi.

**230 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Gofynwyd i'r Aelodau gynnig materion ar gyfer trafod gyda'r Heddlu. Roedd gor-yrru yn bendant yn broblem.

**231 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD talu'r canlynol;**

*Cyflog y Clerc (Chwarter 1af Ebr-Mai-Meh):*

| | |
|---|---|
| Denfer Morgan | £286.85 |
| CThEM (TWE) | £71.71 |
| Gwyn Jones (Archwiliad Mewnol) | £50 |

**232 Cyfraniadau Ariannol**

a) Rhoddwyd ystyriaeth i gais Eisteddfod Ciliau Aeron am gymorth ariannol a **PHENDERFYNWYD** gwneud cyfraniad o £125.

b) Cyfeiriodd y Clerc at benderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 7fed o Chwefror 2019 (Cofnod 195 (b)), i gyfrannu £1,000 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 drwy wneud dau daliad ym mlynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20 a bod y taliad cyntaf wedi'i wneud yng nghyfarfod mis Chwefror y llynedd.

   **PENDERFYNWYD** felly gwneud yr ail daliad, sef un 2019-20, yn y swm o £1,000, yn y cyfarfod hwn.

**233 Cyfrifon y Cyngor 2018-19**

Cyflwynodd y Clerc Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19 fel a archwiliwyd gan yr Archwilydd Mewnol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cyfrifon y Cyngor 2018-19 fel a gyflwynwyd, gan nodi y byddai angen cadw golwg ar swm yr arian wrth gefn yn ystod paratoi cyllideb 2020-21.

**234 Ysgol Gynradd Gymunedol Cilcennin**

Rhoddwyd ystriaeth i Lythyr dyddiedig 28ain Mai yn datgan yn swyddogol fod Cyngor Sir Ceredigion,yn ei gyfarfod ar 24ain Mai 2019, wedi cymeradwyo cau Ysgol Gynradd Gymunedol Cilcennin o'r 31ain Awst 2019.

Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i drafod y defnydd o'r adeilad a'r adnoddau gwahanol yn yr Ysgol a chytunwyd cadw golwg ar ddatblygiadau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r sefyllfa a chadw golwg ar ddatblygiadau o ran cau'r Ysgol.

**235 Cynigion ar gyfer Creu Ysgol Ardal Dyffryn Aeron**

Rhoddwyd ystyriaeth i Ddogfen Ymgynghori Cyngor Sir Ceredigion ar greu Ysgol Ardal yn Nyffryn Aeron, a oedd yn cynnwys saith opsiwn. Nodwyd taw 16eg Gorffennaf oedd y dyddiad cau ar gyfer anfon sylwadau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf a gofyn i'r Clerc anfon y ddogfen, ynghyd â'r sylwadau a wnaed yn gynharach gan y Cyngor, i'r Aelodau.

**236 Cais Cynllunio A190318**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A190318 Bryn Lluest, Cilcennin. Codi adeilad amaethyddol ar gyfer storio peiriannau.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**237 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

a) gofynwyd i'r Clerc ddwyn sylw'r Cyngor Sir at broblemau gyda thyllau llygod mawr ar Lwybr Cyhoeddus 39/21 yng Nghilcennin.
b) gofynwyd i'r Clerc anfon y cwynion a wnaed eisoes gan y Cyngor ynglyn a Phont tyglyn a'r Bont Newydd at y Cynghorydd Sir Marc Davies er mwyn eu hafnon 'mlaen at y Cyngor Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:45pm